# Ein Cynnig Cymraeg

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb i ymwelwyr â Chymru glywed, gweld a phrofi'r Gymraeg fel rhan o'u cyflwyniad, neu eu hailgyflwyniad i Gymru.

Rydym yn cydnabod yr angen i gysylltu â'r cymunedau, y bobl a'r lleoedd y mae ein hosteli wedi'u lleoli ynddynt a chwarae mwy o rôl yn niwylliant, treftadaeth a phrofiad bywyd y rhai sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â'n hardaloedd.

Fe wnaethom lansio strategaeth ar ei newydd wedd ar gyfer YHA yng Nghymru, gan gydnabod dechreuadau cynnar YHA a ddechreuodd yng Ngogledd Cymru yn y 1920au.

Ymrwymodd YHA i gyfres o addewidion fel rhan o'r strategaeth hon. Roedd un addewid yn amlinellu ein bwriadau i wella'r defnydd o'r Gymraeg ar draws ein sefydliad ac mae ein Cynnig Cymraeg yn manylu ar y camau gweithredu a fydd yn sicrhau ein bod yn cyflawni'r addewid hwn.

- Bydd YHA yn darparu croeso Cymreig i westeion ac ymwelwyr ar draws ein hosteli yng Nghymru; gan gydnabod y rôl rydym yn ei chwarae wrth gyflwyno treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog Cymru i ymwelwyr tro cyntaf a rheolaidd â Chymru.
- Bydd YHA yn cefnogi ac annog Cymraeg yn y gweithle; sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr yn ymwybodol o'r hyfforddiant a'r adnoddau sydd ar gael i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg (yn ffurfiol ac yn anffurfiol) yn y gwaith.
- Mae YHA yn croesawu cyfathrebu yn Gymraeg neu Saesneg, a byddwn yn cynnig y cyfle i'n gwesteion a'n haelodau gyfathrebu â ni yn Gymraeg lle bynnag y bo'n bosibl ac yn ymarferol i wneud hynny.
- Ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a gynhelir yn benodol yng Nghymru byddwn yn darparu deunyddiau a chyfathrebiadau dwyieithog.
- Bydd pob cyfle am swydd yn rhwydwaith Cymru yn cael ei hysbysebu'n ddwyieithog a bydd sgiliau iaith Gymraeg yn faen prawf dymunol.